CYFRES A4

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Ioan 13: 1-17

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 13: 15

## Gwers 1 Bywyd Pedr – Enghraifft o gariad

Doedd Becky ddim yn hapus. Doedd hi ddim eisiau gosod y bwrdd. Tro Ben oedd hi ond roedd Ben yn y gwely â'r frech goch. Pam ddylai hi wneud gwaith Ben drosto? Yn y Darlleniad o'r Beibl, doedd y disgyblion ddim eisiau gwneud gwaith gwas! Yn amser Iesu, roedd y rhan fwyaf o bobl yn gorfod cerdded i bob man. Roedd hi'n wlad boeth a sych ac roedd y ffyrdd yn fudr ac yn llychlyd. Byddai eu traed yn mynd yn frwnt am mai sandalau roedden nhw'n eu gwisgo. Pan fydden nhw'n mynd i dŷ rhywun, byddai'r perchennog yn trefnu i un o'i weision olchi eu traed cyn bwyta. Y tro hwn, Iesu wnaeth waith y gwas.

**C** **Rhowch ddwy ran y brawddegau gyda'i gilydd trwy roi'r rhif cywir yn y gwahanol focsys.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Roedd hi'n amser gŵyl | ___ | gan y Diafol. |
| 2 | Roedd Iesu'n caru | ___ | y Pasg. |
| 3 | Roedd Iesu'n bwyta | ___ | ei ddisgyblion. |
| 4 | Cafodd Jwdas ei demtio | ___ | at Dduw. |
| 5 | Roedd Iesu ar fin mynd yn ôl | ___ | swper gyda'i ddisgyblion |

5

**C** **Gwnewch y croesair hwn yn defnyddio geiriau o'r Darlleniad o'r Beibl.**

**Ar Draws**
1. Roedd y rhain yn bwyta gyda Iesu.
2. Sychodd Iesu eu traed â hwn.
3. Enw arall Simon.

**I Lawr**
1. Tywalltodd Iesu hwn.
3. Llanwodd Iesu hon.
4. Golchodd Iesu eu _ _ _ _ _.




6

Wrth i Pedr wylio Iesu'n golchi traed ei ffrindiau, roedd yn cynhyrfu. Doedd Pedr ddim yn deall pam roedd Iesu'n gwneud hyn. Doedd e ddim eisiau i Iesu olchi ei draed ef fel gwas!

**C** **Lliwiwch dros y geiriau a ddywedodd Pedr wrth Iesu.**




2

Golchodd Iesu draed ei ddisgyblion. Wrth wneud hynny, roedd e'n dweud wrthyn nhw ei fod yn dymuno iddynt fyw bywyd glân a pheidio â gwneud na meddwl pethau drwg.

Mae pawb ohonon ni'n gwneud neu'n meddwl pethau drwg weithiau. Gallwn ni ddweud 'Sori" wrth Iesu am hyn a gofyn iddo ein glanhau ni.

**C** **Llanwch y bylchau yn adnod 13.**

Er bod Iesu wedi gwneud gwaith gwas, mewn gwirionedd roedd yn __ ____ __ __ ac yn __ __ __ __ __ __ ____ iddynt.

2

Roedd yr Arglwydd Iesu wedi rhoi esiampl ardderchog o gariad a gwyleidd-dra i'w ddisgyblion.

**C** **Darllenwch yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch hi yma.**

2

Fel yr oedd Iesu wedi gwneud gwaith gwas, roedd arno ef eisiau i'w ddisgyblion wasanaethu pobl eraill. Dydi hyn ddim yn hawdd ond, os gofynnwn ni i Iesu, bydd ef yn ein helpu.

Mae'r Beibl yn dysgu mai Duw ddylai ddod gyntaf yn ein bywyd, wedyn pobl eraill a ni ein hunain yn olaf.

**C** **Rhowch y geiriau isod yn y blychau cywir.**

Pobl eraill | Fi (Ysgrifennwch eich enw) | Duw

2il | 1af | 3ydd

3

"Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gweithredwch arnynt." (adnod 17)

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 22: 31-34, 54-62

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 22: 31-32

## Gwers 2 Bywyd Pedr – Gwadu ei Arglwydd

Roedd gan Ben lawer o ffrindiau yn yr ysgol. Un dydd Gwener, roedd y plant yn trafod beth roedden nhw'n mynd i'w wneud dydd Sul.

"Dw i'n mynd i dŷ Nain," meddai un.
"Dw i'n mynd i lan y môr," meddai un arall. "Beth wyt ti'n ei wneud, Ben?"
"Dw i'n mynd i'r capel," meddai Ben. Roedd ei ffrindiau'n synnu. Gofynnon nhw a oedd e'n mynd bob wythnos. "Na, dim ond weithiau," meddai Ben. Roedd Ben yn mynd i'r capel bob wythnos go iawn ond roedd arno ofn y byddai ei ffrindiau'n gwneud hwyl am ei ben. Felly, wnaeth e ddim dweud y gwir. Dyna sut roedd Pedr yn teimlo yn y Darlleniad o'r Beibl.

Ar ôl i Iesu fwyta swper gyda'i ddisgyblion, aeth â nhw i Fynydd yr Olewydd. Rhybuddiodd Iesu y byddai Pedr yn dweud cyn hir nad oedd yn ei nabod.

**C** **Ysgrifennwch yr adnodau isod.**

**Adnod 33**

Dywedodd _____

**Adnod 54**

_____
_____

**Adnod 55**

_____
_____

3

**C** **Rhowch rhif yr adnod gywir ger pob cwestiwn isod.**

Pa adnod sy'n dweud wrthym na wnaeth Pedr aros yn agos at Iesu?

Adnod _____

Pa adnod sy'n dweud wrthym bod Pedr yn brolio hyd yn oed ar ôl i Iesu ei rybuddio?

Adnod _____

Pa adnod sy'n dweud wrthym fod Pedr wedi eistedd wrth y tân gyda gelynion Iesu?

Adnod _____

3

**C** **Gwadodd Pedr ei Feistr dair gwaith. Ysgrifennwch yn y bocsys beth a ddywedodd bob tro.**

Dywedodd morwyn,
"Roedd y dyn hwn gydag ef."

Dywedodd dyn,
"Rwyt tithau'n un ohonynt."

Dywedodd rhywun arall,
"Roedd hwn gydag ef,
Galilead yw."

6

GWADODD Pedr Iesu. Mae hyn yn golygu ei fod wedi dweud nad oedd yn ei nabod nac yn ei ddilyn.

**C** **Dyma groesair i chi. Llanwch y bylchau yn y paragraff isod ac ysgrifennu'r atebion yn y ceiliog.**




Druan â Pedr! Roedd e'n caru Iesu mewn gwirionedd ond nawr roedd wedi'i siomi. Roedd yn teimlo'n ofnadwy.

Pam wnaeth Pedr wadu Iesu? Efallai bod arno ofn beth fyddai gelynion Iesu'n ei ddweud wrtho neu'n ei wneud iddo. Dydi hi ddim bob amser yn hawdd dweud ein bod yn perthyn i Iesu Grist.

5

3

**C** **Defnyddiwch yr Adnodau Allweddol i lenwi'r bylchau isod.**

Yr wyf i wedi d __ __ __ __ __ (gweddïo) drosot ti na fydd dy ___ __ ___ yn p __ ___ __.

Mae'r Arglwydd Iesu'n gwneud yr un peth dros ei ddilynwyr heddiw.

Enw _____

DARLLENWCH
Marc 15: 22-40

ADNOD
ALLWEDDOL
Galatiaid 2: 20

## Gwers 3 Bywyd Pedr – Iesu'n marw

Ar ddiwedd y wers ddiwethaf, fe adawon ni Pedr yn wylo. Cafodd Iesu ei arwain i ffwrdd i gael ei groeshoelio. Er nad yw'r Darlleniad hwn o'r Beibl yn sôn am Pedr, rydyn ni'n gwybod ei fod wedi gweld Iesu'n dioddef. (1 Pedr 5:1)

**C** **Beth wnaeth y milwyr â dillad Iesu?**

_____ **2**

Roedd diwrnod yr Iddewon yn dechrau am chwech o'r gloch y bore, felly eu trydedd awr nhw oedd 9 o'r gloch y bore i ni; eu chweched awr nhw oedd canol dydd (12 o'r gloch) i ni.

**C** **Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn sôn am dri amser. Tynnwch lun y bysedd ar y clociau ac YSGRIFENNU YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddigwyddodd ar bob un o'r amserau hyn..**

_____

_____ **6**

_____

**C** **Mewn prif lythrennau, ysgrifennwch ar y darn coed beth oedd y cyhuddiad yn erbyn Iesu (adnod 26).**



**1**

Doedd yr Iddewon na'r Rhufeiniaid yn gallu gweld bai yn Iesu. Ond, yn bwysicach na hynny, yng ngolwg Duw, roedd e'n hollol berffaith a di-bechod. Flynyddoedd wedyn, ysgrifennodd Pedr amdano gan ddweud "Ni wnaeth ef bechod". (1 Pedr 2: 22). Felly, dim ond Iesu sy'n gallu "cymryd ein pechodau ni yn ei gorff ar y croesbren". (1 Pedr 2: 24)

**C** **Beth oedd ymateb y bobl pan oedd Iesu ar y groes? Tynnwch linellau syth i ddangos beth wnaeth y bobl hyn**

| | |
|---|---|
| a. 39 Y canwriad (swyddog yn y fyddin) | Ysgwyd eu pennau a'i gablu |
| a. 31 Y prif offeiriaid ac eraill | Credu mai Iesu oedd Mab Duw |
| a. 29 Rhai oedd yn mynd heibio | Ei watwar |

3

**C** **Gwaeddodd Iesu a llef uchel, "Eloi, Eloi, lama sabachthani". Lliwiwch y geiriau sy'n dweud beth y mae hyn yn ei feddwl.**

| | |
|---|---|
| "Elias, Elias, tyrd i'm helpu" | "Fy Nuw, fy Nuw, pam rwyt ti wedi fy ngadael?" |

1

**C** **Beth ddigwyddodd i'r llen fawr drom yn y deml?**



2

**C** **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir:-**

Cynigiodd rhywun ddiod i Iesu. .....
Roedd Iesu'n dawel ar y groes. .....
Cafodd tri dyn arall eu croeshoelio gydag ef. .....
Roedd gwragedd yn gwylio o bell. .....



4

**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

1

Meddyliwch yn ofalus am ddiwedd yr adnod hon. Dyna adnod bersonol!

"Mab Duw … a'm carodd i ac a'i rhoes ei hun i farw trosof fi."

Beth am i chi ddiolch i Iesu am eich caru chi fel hyn?

**Roedd rhywun arall yn ddiolchgar i Iesu ac ysgrifennodd y geiriau hyn:**

**Diolch, diolch Iesu; diolch, diolch Iesu**
**Diolch, diolch Iesu yw fy nghân**
**Diolch, diolch Iesu; O diolch, diolch Iesu**
**Diolch, diolch Iesu yw fy nghân.**

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 21: 1-17

ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 21: 17

## Gwers 4 Bywyd Pedr – 'A wyt ti'n fy ngharu i?'

Ar ôl i Iesu atgyfodi, aeth y disgyblion yn ôl i Galilea i wneud y gwaith yr oeddent yn ei wneud cyn i Iesu eu galw.

C **Pwy awgrymodd y dylen nhw fynd i bysgota?** 1

C **Aeth chwe disgybl arall gydag ef. Ysgrifennwch enwau dau ohonynt.** 2

C **Fore trannoeth, pwy oedd yn sefyll ar y lan?** 1

Er bod hynny'n ymddangos yn rhyfedd, nid oeddent yn ei nabod yn syth. Pan ofynnodd iddynt a oeddent wedi dal rhywbeth, 'Na' oedd yr ateb.

C **Beth ddywedodd Iesu wrthynt am ei wneud? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.** 1

"Rhoi cynnig arall arni fory" "Bwrw'r rhwyd i'r ochr dde i'r cwch"

"Mynd i ddŵr dyfnach i bysgota"

Cyn gynted ag y gwnaethant fel y dywedodd Iesu, fe gawsant syndod mawr. Wrth i'w rhwyd lenwi â physgod dyma'r dynion yn sylweddoli pwy oedd yn sefyll ar y lan.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth Pedr cyn gynted ag y clywodd y geiriau "Yr Arglwydd yw".** 1

C **Rhowch gylch o gwmpas y tri pheth a welsant ar y traeth. (adnod 9)** 1




C **Faint o bysgod oedd yn y rhwyd? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.** 1

**C** **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir:-**

| | | |
|---|---|---|
| Roedd y rhwyd wedi rhwygo. | (Adnod 11) | ☐ |
| Andreas ddaeth â'r pysgod i'r lan. | (Adnod 11) | ☐ |
| Gofynnodd y disgyblion 'Pwy wyt ti?' | (Adnod 12) | ☐ |
| Dyma'r trydydd tro i Iesu ymddangos i'w ddisgyblion ar ôl iddo atgyfodi. | (Adnod 14) | ☐ |

4

Ar ôl iddyn nhw fwynhau brecwast da, ar wahoddiad Iesu, siaradodd ef â Simon Pedr.

**C** **Llanwch y bylchau.**

Iesu: "Simon, a wyt ti'n fy ngharu i yn fwy na'r rhain?"

Atebodd Simon Pedr:

_____

Dywedodd Iesu:

_____

Iesu: "Simon, a wyt ti'n fy ngharu i?"

Atebodd Simon Pedr:

_____

Dywedodd Iesu:

_____

Iesu: "Simon, a wyt ti'n fy ngharu i?"

Atebodd Simon Pedr:

_____

Dywedodd Iesu:

_____

6

Roedd Iesu'n rhoi tasgau newydd i Simon Pedr eu gwneud. Roedd i fod i ddysgu'r rhai oedd yn dilyn yr Arglwydd Iesu a gofalu amdanynt.

**C** **Awgrymwch reswm pam y gofynnodd Iesu i Pedr dair gwaith "A wyt ti'n fy ngharu i?" Darllenwch Wers 2 i gael cliw.**

_____

_____

2

Beth amdanoch chi? Sut berthynas sydd gennych chi â'r Arglwydd Iesu?

Er bod Pedr wedi siomi Iesu, roedd wedi cael maddeuant ac roedd yn barod i wneud gwaith pwysig drosto. Mae'n wir bod llawer o Gristnogion yn dal i siomi'r Arglwydd Iesu, ond mae hefyd yn wir ei fod ef yn barod i'n derbyn ni eto pan fydd yn wirioneddol ddrwg gennym am ein pechodau.

**cyfanswm** ☐

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

_____

_____

_____

_____

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 3 A4

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120